

Elin Jones AS

Y Llywydd

5 Hydref 2020

Annwyl Lywydd

Sefydlu pwyllgorau 'gorchwyl a gorffen' o dan Reol Sefydlog 16.5

Sefydlwyd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd gan y Senedd ym mis Medi 2019 i ymgymryd â thasg benodol: i ymchwilio i'r argymhellion a wnaed gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad. Yn unol â'r cynnig y cytunwyd arno gan y Senedd, bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ein hadroddiad terfynol, *Diwygio'r Senedd: y camau nesaf*, ar 7 Hydref 2020. Gan mai anaml y bu'r defnydd o Reol Sefydlog 16.5 i sefydlu pwyllgorau 'gorchwyl a gorffen' ychwanegol hyd yn hyn, ysgrifennaf i gynnig rhai myfyrdodau byr ar ein profiad.

- Cydbwysu eglurder cylch gwaith ag ymagwedd hyblyg:** Roedd y cynnig a sefydlodd y Pwyllgor yn nodi'n glir y dasg yr oedd y Senedd yn dymuno inni ei chyflawni, ond rhoddodd hyblygrwydd inni ynghylch y ffordd y byddem yn gwneud ein gwaith a'r amserlenni y byddem yn gweithio iddynt. Fe wnaeth hyn ein galluogi i nodi ein blaenoriaethau ein hunain fel Pwyllgor, ystyried arbenigedd a diddordebau aelodau'r Pwyllgor eu hunain, ac ymateb yn hyblyg i amgylchiadau digynsail pandemig y COVID-19. Byddem yn annog y Senedd i gymryd agwedd debyg eto pe bai'n sefydlu unrhyw bwyllgorau gorchwyl a gorffen eraill.
- Cynllunio strategol:** Dechreuwyd ein rhaglen waith trwy gael sesiynau briffio technegol ar faterion allweddol o fewn ein cylch gwaith, a thrwy gynnal sesiwn strategaeth wedi'i hwyluso i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'n hamcanion strategol a chytuno ar ein ffyrdd o weithio. Roedd ein hamcanion strategol yn sail i ddatblygiad ein rhaglen waith, yn gymorth i sicrhau bod ein hymchwiliadau'n canolbwyntio ar ein nodau allweddol, yn siapio ein cyfathrebiadau cyhoeddus, ac yn rhoi fframwaith i'n



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddDiwygio@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddReform@senedd.wales

☎ 0300 200 6565

cynorthwyo i wneud penderfyniadau ar sut i addasu ein cynlluniau mewn ymateb i'r pandemig a'r amgylchiadau gwleidyddol sy'n newid. Byddem yn annog pwyllgorau 'gorchwyl a gorffen' eraill a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 16.5 i gymryd amser ar ddechrau eu gwaith i gynllunio'n strategol.

- 3. Mynediad at adnoddau a dulliau ymgysylltu ystyriol:** Fel pwyllgorau eraill y Senedd, mae'r Pwyllgor wedi cael cefnogaeth yn ystod ei waith gan dîm integredig o swyddogion ac—yn amodol ar ddatblygu achosion busnes cadarn i sicrhau defnydd effeithlon a phriodol o arian cyhoeddus—mae wedi gallu cael gafael ar adnoddau ariannol ac adnoddau eraill gan Gomisiwn y Senedd. Oherwydd bod natur y materion o fewn ein cylch gwaith yn gyfansoddiadol arwyddocaol a sensitif yn wreidyddol, daethom i'r casgliad y byddai ymgysylltu ystyriol, manwl â'r cyhoedd yn cynorthwyo ein gwaith ac yn gwella ein casgliadau. Er bod pandemig y COVID-19 yn golygu na allem fwrw ymlaen fel yr oeddem wedi'i gynllunio, roeddem yn arbennig o ddiolchgar i Gomisiwn y Senedd am gytuno i ddyrannu adnoddau sylweddol i'n galluogi i geisio caffael cynulliad dinasyddion. Byddem yn annog y Comisiwn i barhau i edrych yn ffafriol ac yn hyblyg ar geisiadau gan bwyllgorau'r Senedd am gyllid, i'w galluogi i symud ar gyflymder, pan fo hynny'n briodol, i ddefnyddio dulliau arloesol ac ystyriol i ymgysylltu â'r cyhoedd.
- 4. Consensws gwleidyddol a chyfranogiad:** Yn gyffredinol, mae pwyllgorau'r Senedd yn gweithredu ar sail consensws. Y tu allan i'r broses craffu deddfwriaethol, mae pleidleisio ym mhwyllgorau'r Senedd yn brin. Weithiau gall aelodau pwyllgor gofnodi barn leiafrifol ar faterion penodol lle na ellir cyrraedd safbwynt pwyllgor unfrydol, ond mae mwyafrif llethol yr adroddiadau a'r argymhellion yn adlewyrchu safbwyntiau consensws trawsbleidiol. Mae gallu a pharodrwydd Aelodau i weithio gyda'i gilydd yn y modd hwn yn galluogi pwyllgorau i ddod â safbwynt gwleidyddol trawsbleidiol ar faterion a thystiolaeth gymhleth a sensitif. Fodd bynnag, gellir taseilio cryfder cyfraniadau pwyllgorau'r Senedd os nad yw eu haelodaeth yn dod o bob rhan o'r Siambr. Mater i bob grŵp gwleidyddol yw penderfynu sut y mae'n dewis cymryd rhan ym musnes y Senedd. Fodd bynnag, o dan Reol Sefydlog 16.5, dim ond ar sail penderfyniadau mwyafrif y Senedd y gellir sefydlu pwyllgorau ychwanegol. Byddem yn annog pob grŵp gwleidyddol i barchu unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Chweched Senedd i sefydlu pwyllgorau ychwanegol, ac i gymryd rhan yn gadarnhaol ac yn adeiladol yn eu gwaith.
- 5. Effaith ar gapasiti'r Senedd a'i Haelodau:** Casgliad allweddol o waith y Pwyllgor oedd bod y Senedd, gyda dim ond 60 Aelod, yn wynebu heriau capasiti sylweddol o ran ei rôl yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Yn amlwg, mae sefydlu pwyllgor Senedd ychwanegol, hyd yn oed am gyfnod â therfyn amser, yn rhoi straen



ychwanegol ar gapasiti'r sefydliad, ac yn enwedig ar yr Aelodau hynny sy'n cael eu penodi iddo. Pe bai'r Chweched Senedd yn penderfynu sefydlu unrhyw bwyllgorau 'gorchwyl a gorffen', byddem yn annog y Pwyllgor Busnes ar y pryd i ddilyn esiampl Pwyllgor Busnes y Pumed Senedd trwy ddyrannu slotiau wythnosol i bwyllgorau o'r fath, o fewn amserlen ffurfiol y Senedd, i roi cymaint o hyblygrwydd â phosibl iddynt yn y ffordd y maent yn cyflawni eu gwaith.

6. **Dilyniant, atebolrwydd a chyfrifoldeb yn y tymor hwy:** Efen allweddol yn effaith a dylanwad pwyllgorau'r Senedd yw eu gallu i nodi materion, gwneud argymhellion, a chymryd camau dilynol i asesu pa gynnydd a wnaed. Gall pwyllgorau ddwyn Llywodraeth Cymru neu wneuthurwyr penderfyniadau eraill i gyfrif dros amser, cadw'r sylw ar feysydd blaenoriaeth, a sbarduno newid lle maent yn credu bod ei angen. Yn ôl eu natur, ni all pwyllgorau 'gorchwyl a gorffen' ddwyn y gwneuthurwyr penderfyniadau perthnasol i gyfrif dros amser na gwneud gwaith dilynol i asesu a yw eu hargymhellion wedi'u rhoi ar waith. Er y gallai pwyllgorau o'r fath fod yn briodol i ymdrin â materion penodol, yn enwedig os yw'r materion hynny'n sensitif o ran amser neu'n cyfrannu at brosesau ehangach, efallai y bydd angen ystyried hefyd lle mae cyfrifoldeb am y materion perthnasol o fewn strwythur y prif bwyllgor er mwyn sicrhau bod materion yn cael ffocws priodol a dilyniant yn y tymor hwy. O ystyried arwyddocâd cyfansoddiadol a democrataidd y materion sydd o fewn ein cylch gwaith, byddem yn annog y Chweched Senedd i sicrhau bod eglurder ynghylch pa bwyllgor sydd â chyfrifoldeb am oruchwyllo trefniadau etholiadol y Senedd.

Gobeithio y bydd y myfyrdodau hyn o gymorth ichi, ac i unrhyw adolygiad y mae'r Pwyllgor Busnes yn ei wneud o weithdrefnau wrth inni agosáu at ddiwedd y Pumed Senedd.

Yn gywir



Dawn Bowden AS

Cadeirydd y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

